

Cyngor Cymuned Llansawel *Community Council*

Cyfarfod Misol / *Monthly Meeting*

Cyfarfod rhithwir trwy Zoom am

20:00 ar y 16eg o Fedi 2021

Virtual meeting via Zoom at

20:00 on the 16th of September 2021

Yn bresennol / *Present:*

Cynghorwyr / *Councillors:* Rhys Green (Is-gadeirydd / Vice chair), Kevin Davies & Pat Racher

Clerc / *Clerk:* Angharad Medi Lewis

1.	<u>Croeso / Welcome</u> Croesawodd y clerwr bawb i'r cyfarfod misol. <i>The clerk welcomed everyone to the monthly meeting.</i>
2.	<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absence</u> Cynghorwyr / <i>Cllrs</i> Rhys George (Cadeirydd / Chair), Meurig Griffiths, Sion Williams, Elsbeth Jenkins & Lynne Jones. Cyng. Sir / <i>County Cllr:</i> Eirwyn Williams
3.	<u>Datganiadau o ddiddordeb / Declarations of interest</u> Dim / <i>None.</i>
4.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 24ain o Fehefin a'r 22ain o Orffennaf 2021</u> <u>Minutes from the previous meeting held on the 24th of June & 22nd of July 2021</u> Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng. Pat Racher ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Rhys Green. <i>The minutes were accepted as a true record and proposed by Cllr Pat Racher and seconded by Cllr Rhys Green.</i>
5.	<u>Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes</u> i. Pont Tancoed, Heol Esgairdawe – Mae'r mater hwn mewn llaw. <i>Tancoed bridge, Esgairdawe Road</i> – <i>This issue is in hand.</i> ii. Gwefan – Derbyniwyd anfonebau gan y Cyng. Pat Racher am gostau Wordpress. Cytunwyd i ad-dalu'r costau. Nodwyd y bydd angen i rywun gymryd cyfrifoldeb dros y wefan yn fuan gan nad yw'r Cyng. Pat Racher yn bwriadu sefyll fel Cynghorydd yn yr etholiadau nesaf. <i>Website</i> – <i>Invoices were received from Cllr Pat Racher for Wordpress costs. It was agreed to reimburse the costs. It was noted that someone will need to take over responsibility for the website soon as Cllr Pat Racher does not intend to stand as a Councillor at the next elections.</i> iii. Hen adeilad yr hers – Dim byd i'w adrodd y tro hwn. Bydd y Clerwr yn gwneud ymholiadau lle'r ydym gyda'r gwaith atgyweirio. <i>The old Harse building</i> – <i>Nothing to report this time. The Clerk will make enquiries where we are with the repair work.</i>

	iv. Prosiect Llwybr Troed – Cytunwyd y byddai'r clerc yn ymateb i e-bost gan Jason Lawday, Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad, yn gofyn am fap o'r llwybr troed sydd gennym mewn golwg. Creodd y Cyng. Rhys Green fap ar Strava. Public Footpath Project - <i>It was agreed that the clerk would respond to the email from Jason Lawday, Countryside Access Officer, requesting a map of the footpath we have in mind. Cllr Rhys Green created a map on Strava.</i>
S	<u>Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / The Future of Llansawel School Building</u> Dim gwybodaeth i'w hadrodd. <i>No information to report.</i>
7.	<u>Gohebiaeth / Correspondence</u> i. Cylchlythyr Clerks & Councils Direct Newsletter September 2021, Issue 137 ii. Y Lloffwr - Copi o rifyn Mehefin 2021 a chais am gymorth ariannol. <i>Copy of the June 2021 edition and request for financial support.</i> iii. Un Llais Cymru – Anfoneb ar gyfer hyfforddiant Côt Ymddygiad a fynychwyd gan y Cyng. Pat Racher ar 30/06. One Voice Wales - <i>Invoice for Code of Conduct training attended by Cllr. Pat Racher on 30/06.</i> iv. C.FF.I Sir Gâr – Cais am gymorth ariannol tuag at gostau rhedeg Mudiad y Ffermwyr Ifanc ar lefel y Sir. Cytunwyd y bydd y Cyngor Cymuned ond yn cefnogi clybiau lleol. Carmarthenshire YFC – <i>Request for financial assistance towards the running of the movement at County level. It was agreed that the Community Council will only support local clubs.</i> v. C.FF.I Dyffryn Cothi YFC - Cais am gefnogaeth ariannol / <i>Request for financial assistance.</i> vi. Eryl Jones Cyfrifydd – Anfoneb am yr archwiliad mewnol. Eryl Jones Accountant – <i>Invoice for the internal audit.</i>
8.	<u>Ceisiadau cynllunio / Planning applications</u> Anfonwyd PL/02501 a PL/02419 at y Cynghorwyr yn flaenorol drwy e-bost ar 21/08/21. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau bryd hynny. <i>PL/02501 and PL/02419 were previously sent to the Councillors via email on 21/08/21. There were no objections at that time.</i> PL/02501 – Steel framed agricultural building for the dry storage of farm yard manure - Berllan, Penlan, Llansawel, Llandeilo, SA19 7JB. Mae pryderon pellach wedi'u codi ynglŷn â'r adeilad. Cytunwyd y byddem yn codi ein pryderon gyda'r adran gynllunio er bod y dyddiad cau bellach wedi mynd heibio. Nid oedd y Cyng. Pat Racher yn credu y bydd adeilad ag ochrau'n gyfan gwbl o ddalennau proffil yn ddigon cryf i sicrhau bod tail yn cael ei gadw. Byddai unrhyw ddihangfa yn llifo i lawr i afon Melinddwr, gyda'r posibilrwydd o halogiad. Mae lechyd Cyhoeddus hefyd wedi dweud bod yn rhaid ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru, ond ni allem weld prawf bod hyn wedi'i wneud.

	<i>Further concerns have been raised regarding the building. It was agreed that we would raise our concerns with the planning department although the closing date has now passed. Cllr Pat Racher did not think that a building with sides entirely of profile sheeting will be strong enough to ensure containment of manure. Any escape would flow downhill to the river Melinddwr, with potential for contamination. Public Health have also advised that Natural Resources Wales must be consulted, but we could not see proof that this has been done.</i> PL/02419 – Erection of above ground slurry storage tank - Trewaun Isaf, Llansawel, Llandeilo, SA19 7JU – Dim gwrthwynebiad / <i>No objection.</i> PL/02543 –1 Llwynceilyn, Llansawel, Llandeilo, SA19 7JB. Adnewyddu'r bwthyn presennol. Adnewyddu'r bwthyn presennol. Codwyd pryderon unwaith eto am nifer y tai sy'n adeiladu estyniadau mawr yn y pentref, gall arwain yn y pen draw at brinder tai fforddiadwy i bobl leol a phobl ifanc. <i>Renovation of existing cottage. Addition of first floor bedroom accommodation with rear dormers to existing cottage. Two storey side extension to contain living and bedroom accommodation. Concerns have again been raised about the number of large extensions being built to properties in the village, which may lead to a shortage of affordable housing for local and young people.</i>
9.	<u>Materion ariannol / Financial matters</u> Balans yn y cyfrif banc - £5,648.66 ar 27/08/21. <i>Bank Account balance - £5,648.66 as of 27/08/21.</i> i. <u>Rhoddion a thaliadau / Donations & Payments</u> . • 000795 – Angharad Lewis – Clerk's salary for July, August & September 2021 - £602.40 (No Tax or NI to pay this month). • 000796 – Cllr Pat Racher – Reimbursement for Wordpress Website charges - £63.60 • 000797 – Y Lloffwr - £30.00 • 000798 – Cylch Meithrin Llansawel - £300.00 – taliad 1/3 • 000799 – One Voice Wales – Code of Conduct Training - £15.00 • 000800 – Eryl Jones Accountant - £72.00 • 000801 – CFFI Dyffryn Cothi - £100.00 ii. <u>Crynodeb Chwarterol o'r cyfrifon</u> – Soniodd y Clerc bydd y crynodeb Chwarterol nesaf am y cyfnod 01/07/21 – 30/09/21. <i>Quarterly Summary of Accounts - The Clerk mentioned that the next Quarterly summary will be for the period 01/07/21 – 30/09/21.</i> iii. <u>Cyfrifon / Archwiliad Blynnyddol</u> – Nodwyd bod y cyfrifydd bellach wedi cwblhau'r archwiliad mewnol ac roedd popeth yn iawn. Bydd y Clerc yn anfon y ffurflen archwilio flynyddol gyda'r holl ddogfennau ategol at Archwilio Cymru erbyn diwedd wythnos nesaf. Cadarnhawyd bod yr hysbysiad archwilio i fyny ar yr hysbysfwrdd ac ar ein gwefan. <i>Annual Accounts / Audit – It was noted that the accountant has now completed the internal audit and everything was fine. The Clerk will send the annual return audit form with all supporting documents to Audit Wales by the end of next week. It was confirmed that the Audit notice is up on the notice board and on our website.</i>
10.	<u>Coronafeirws / Coronavirus (Covid-19)</u> Adroddwyd bod cyfradd Covid yn yr ardal wedi cynyddu a bod meddygfeydd Bro Pedr yn Llambled a Llanybydder wedi cau ei drysau i'r cyhoedd am y tro.

	<i>It was reported the Covid rate in the area has increased in the area and that Bro Pedr surgeries in Lampeter and Llanybydder has closed its doors to the public for the time being.</i>
11.	<u>Unrhyw fusnes arall / Any other business</u> - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb ynglŷn â'r ardd Ffrwythau a Pherlysiau i'r pentref. Nodwyd bod angen e-bost neu llythyr gan y Cyngor Sir yn cadarnhau mai nhw sy'n berchen ar y tir sydd wrth ymyl y fainc ger Capel Shiloh. Y clerch i ofyn i'r Cyng. Eirwyn Williams. <i>Local Places for Nature – The Clerk confirmed that she had received a response regarding the Fruit and Herb garden for the village. It was noted that an email or letter is required from the County Council confirming that they own the land adjacent to the bench near Shiloh Chapel. The clerk to ask Cllr. Eirwyn Williams.</i> - Coeden Onnen – Nid oedd unrhyw diweddariad y tro hwn. <i>Ash Tree – No update this time.</i> - Canghennau Crog – Nid oedd unrhyw diweddariad ond roedd y Cyngorhorwyr yn meddwl bod gwaith wedi cael ei wneud ar ffordd Llansawel i Abergorlech yn ddiweddar. Bydd y Cyng. Eirwyn Williams yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa erbyn y cyfarfod nesaf. <i>Hanging branches – There was no update but Councillors thought that work had recently been carried out on the Llansawel to Abergorlech road. Cllr Eirwyn Williams will update us on the situation by the next meeting.</i> - Ymddiswyddiad y Clerc – Nodwyd bod y Clerc wedi anfon copi o'i llythyr ymddiswyddo, hysbyseb swydd, disgrifiad swydd a chytundeb drwy e-bost at bawb. Nododd y Cyng. Kevin Davies fod ansicrwydd ynghylch ffiniau newydd Llansawel. Y clerch i ofyn i'r Cyng. Eirwyn Williams am ddiweddariad, rhag ofn nad oes angen hysbysebu'r swydd. <i>Clerk's Resignation – It was noted that the Clerk had sent a copy of her resignation letter, job advertisement, job description and job contract by email to everyone. Cllr. Kevin Davies noted that there is uncertainty of the new boundaries of Llansawel. The clerk to ask Cllr Eirwyn Williams for an update, in case there is no need to advertise the post.</i> - Padiâu diffibriliwr – Soniodd y clerch fod y padiâu diffibriliwr yn y pentref yn dod i ben ar y 1af o Hydref. Bydd y Clerc yn archebu rhai newydd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru. <i>Defibrillator pads – The clerk mentioned that the defibrillator pads in the village are expiring on the 1st of October. The Clerk will order new ones from The Welsh Ambulance Service Trust.</i> - Tractorau – Dywedodd y Cyng. Kevin Davies ei fod wedi derbyn cwynion yn ddiweddar am ba mor gyflym y mae tractorau'n teithio drwy'r pentref o ffordd Esgairdawe a hefyd o Rhydcymerau i'r pentref. Adroddwyd bod gyrwyr y tractorau yn eithaf ifanc. Mae'r Clerc yn mynd i godi'r mater gyda'r Cyng. Eirwyn Williams. <i>Tractors – Cllr Kevin Davies reported that he has received complaints recently about the speed at which tractors travel through the village from the Esgairdawe road and also from Rhydcymerau into the village. It has been reported that the tractors drivers are quite young. The Clerk is going to raise the matter with Cllr Eirwyn Williams.</i>
12.	<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / Date and time of next meeting</u> 21ain o Hydref 2021 am 19:30. Lleoliad i'w gadarnhau. <i>21st of October 2021 at 19:30. Location to be confirmed.</i>

Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 21:25. <i>With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 21:25.</i>	

Arwyddwyd / Signed **Dyddiad / Date**